



TAITH YSGOL Y GRAIG I GYNLLUNIO'R CWRICWLWM I GYMRU



YSGOL Y GRAIG - 'Y GRAIG SY'N SYLFAEN'.





CEFNDIR YR YSGOL

Saif yr ysgol ar gyrion tref farchnad Llangefni, Ynys Môn.

Agorwyd adeilad newydd yr ysgol yn 2009.

Mae'r ysgol wedi ei chynllunio'n bwrpasol ar gyfer ateb anghenion disgyblion yn yr 21ain Ganrif.

Clustnodwyd gardd ysgol, lle chwarae caeedig i'r plant Meithrin gyda iard a chae chwarae eang i weddill yr ysgol.

Rydym yn gwasanaethu ardal Dechrau'n Deg a chredwn yn gryf ei fod yn ddyletswydd arnom i roi cyfleodd a phrofiadau i'n plant sy'n eu galluogi i ddysgu am eu cymuned o fewn ein hardal leol, a'i pherthynas wedyn gyda'r byd ehangach.

Mae cynhwysiant a llesiant yn bwysig i ni yn Y Graig. Waeth beth yw cefndir plentyn, neu ei anghenion, rydym yma i sicrhau ein bod yn cynnig darpariaeth sy'n agor y drws i fyd sy'n gyffroes ac yn llawn cyfleoedd.



EIN NOD, ETHOS AC ARWYDDAIR

- Creu amgylchfyd ac awyrgylch hapus a diogel lle y gall pob dysgwr dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, sy'n ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.
- Rhoi'r cyfle i bob dysgwr ddatblygu i'w lawn botensial ymhob agwedd o'r cwricwlwm.
- Arwyddair yr ysgol: '*Y Graig sy'n Sylfaen*'.



GWERTHOEDD YR YSGOL

LLES
A
GOFAL

HYDERUS A
HAPUS

CYNHYWSOL

**Y Graig
sy'n
Sylfaen.**

ANNIBYNNOL


PARCHUS

CYMREICTOD




CYD-DESTUN YR YSGOL

Yr iaith sy'n cael ei siarad yn y cartref



Y Clybiau ar ôl ysgol mwyaf poblogaidd






Clybiau eraill yn cynnwys:

- Pêl fasged
- Tennis
- Drama
- Brownies
- Majorettes
- Marchogaeth
- Karate
- Cic-focsio






Yn berchen ar ffôn symudol?



Yr Adran Iau

Yn gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu?





PARTNERIAETHAU'R YSGOL



- Rhieni
- Llywodraethwyr
- Cyngor Ysgol
- Cyngor Eco
- Siarter Iaith
- Yr Urdd
- Môn Actif
- Heddlu
- Nyrs Ysgol
- Barnardos
- Teulu Môn
- Tîm o Amgylch y Teulu
- Ysgolion Dalgylch Llangefni
- Ysgol Gyfun Llangefni

- Llangefni Library
- Oriel Ynys Môn
- Archifdy
- Canolfan Iaith
- Sbarduno
- Prifysgol Bangor
- Coleg Menai
- Canolfan Hamdden Plas Arthur
- Cyngor Sir Ynys Môn
- GwE
- Uned ABC
- Dechrau'n Deg
- Cyfeillion Agor y Gair



LLWYBR YSGOL Y GRAIG TUAG AT Y CWRICWLWM

Egwyddorion a phwrpas i ni yma yn Y Graig

**Y Pedwar Diben,
12 Egwyddor**

Cynnydd ac Asesu

Pwysigrwydd Y Graig
i holl randdeiliad
yr ysgol

**Addysgeg
gan gynnwys
Meddylfryd o
Dwf**

Adolygu ac Arfarnu



EIN GWELEDIGAETH A'N GWERTHOEDD

Cwmwl eiriau sy'n cwmpasu yr hyn mae Ysgol y Graig yn ei olygu i'n holl randdeiliaid.



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - LLAIS Y DYSGWYR

Dysgu

Bod yn
Saff

Chwarae

Siarad
Cymraeg

Bod yn
gwrtais

Cael
hwyl

Canolbwyntio

Cael
sgiliau
newydd

Gwneud
Gwaith

Ffrindiau

Bod yn
garedig

Bod yn
ffrind
da

Rhannu

Helpu

Yn dilyn
rhannu
holiadur
gyda'r
disgyblion.
Dyma
oedd y
geiriau
oedd yn
amlygu eu
hunain.



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - LLAIS Y STAFF

Yn dilyn
rhannu
holiadur
gyda
staff.
Dyma
oedd y
geiriau
oedd yn
amlygu.



hunan-barch

dyfalbarhau

ymholgar

cymuned

gwerthfawrogol

Cymreictod

agwedd
bositif

llesiant

gonestrwydd

Cynhwysol

annibyniaeth

ymddygiad
gwyb

mentrus

parch

mwynhau
dysgu

hyderus

moesol

Y GRAIG SY'N SYLFAEN - LLAIS Y RHINI

cwrtais

**yn
ffrind
da**

**mwynhau
dysgu**

**magu
hyder**

**ymddygiad
sy'n
arddangos
parch at eraill**

gonestrwydd

**caredigrwydd
at blant ac at
greaduriaid**

annibyniaeth

dyfalbarhad

hapus

**meddwl
agored,
iach**

creadigrwydd

**cyfathrebu'n
gywir**

**cyfathrebu'n
gywir**

**profiadau
ymarferol e.e.
coginio neu
arddio**

**ymgysylltu
gyda'r
gymuned**

**y gallu i
ddarllen ac
ysgrifennu**

**magu
hyder**

**awyddus i
ddysgu**

**agwedd
positif
tuag at
waith**

**Yn dilyn
rhannu
holiadur gyda
rhieni /
gwarchodwyr.
Dyma oedd y
geiriau oedd
yn amlygu.**



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - LLAIS Y LLYWODRAETHWYR

**yn
iach**

hapus

**cael
dysgu
sgiliau
bywyd**

annibynnol

ymddygiad da

**cael
profiadau
eang**

**yn
mwynhau
dod i'r
ysgol**

**yn
ymdrechu**

llesiant

hwyl

**cyfle
cyfartal**

**bod yn
rhan o
gymuned
Y Graig**

llwyddiannus

**yn rhugl
ddwyieithog**

cymreictod

Yn dilyn
rhannu
holiadur
gyda'r
Llywodrae-
-thwyr.
Dyma oedd
y geiriau
oedd yn
amlygu eu
hunain.





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - ELFENNAU MANDADOL I'R CWRICWLWM

CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESG

ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB

Y GYMRAEG

SAESNEG

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn faes mandadol o fewn Cwricwlwm i Gymru. Un o brif agweddau'r maes hwn yw crefydd ac argyhoeddiadu athronyddol anghrefyddol. Bydd yr ysgol yn gweithredu er mwyn datblygu'r dysgwyr i fod yn unigolion iach, hyderus sydd â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol. Bydd yr ysgol yn sicrhau gweithgareddau fydd yn datblygu'r dysgwyr yn ysbrydol, moesol, cymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Mae'r maes yma'n Nghymru'n statudol. Nid oes gan rieni/gwarchodwyr yr hawl i eithrio eu plentyn/plant o'r addysg hwn. Yn Ysgol y Graig byddwn yn sicrhau fod y maes yn cael ei addysgu o fewn cyd-destun ac yn addas a phriodol i oedran y disgyblion. Bydd y dysgwyr yn dysgu am deimladau, perthnasoedd iach a sut maent yn meddwl amdanynt eu hunain.

Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr ysgol. Drwy eu cyfnod yn y Cyfnod Sylfaen trwythir y Gymraeg iddynt a hynny drwy ganu hwiangerddi, cyfoethogi'r iaith lafar drwy ymadroddion a gwaith yn defnyddio dull llafar Pie Corbett.

Bydd y dysgwyr erbyn cyrraedd brig yr ysgol yn gwbl ddwyieithog.

Caiff hwyreddyfodiad fynychu canolfan iaith yr ynys.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau Siarter Iaith Ynys Môn.

Yn Ysgol y Graig credwn ei fod yn bwysig sicrhau cyfleodd i ddysgwyr ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog sy'n gallu cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym felly'n cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol i ddysgwyr pan maent yn 7 oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r Saesneg fel cyfrwng iaith y dosbarth o fewn gwersi penodol.



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y 4 DIBEN

Dysgwr uchelgeisiol, galluog

- Rwy'n gallu canolbwyntio, trio fy ngorau a gosod heriau i mi fy hun
- Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm sgiliau mewn gwahanol ffyrdd
- Rwy'n gallu gofyn cwestiynau a datrys problemau
- Rwy'n gallu cyfathrebu ac egluro fy syniadau
- Rwy'n gwella fy ngwaith yn barhaus
- Rwy'n gallu deall data a defnyddio fy sgiliau mathemategol
- Rwy'n gallu defnyddio technoleg ddigidol i greu, i gyfathrebu a darganfod gwybodaeth
- Rwy'n cael boddhad o ddysgu ac yn **barod i ddysgu drwy gydol fy oes.**

Cyfranwyr, mentrus uchelgeisiol

- Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth a'm sgiliau i greu gwrthrychau newydd
- Gallaf ddyfalbarhau a meddwl am ffyrdd gwahanol i ddatrys problemau
- Rwy'n chwilfrydig a gallaf ddefnyddio gwybodaeth er mwyn fy helpu i gymryd risgiau
- Gallaf weithio'n dda fel aelod o dîm
- Gallaf ddangos fy syniadau a'm teimladau mewn gwahanol ffyrdd
- Gallaf ddefnyddio fy egni a'm sgiliau i helpu eraill
- Rwy'n meddwl gyda meddylfryd o dŵf ac yn dysgu o fy nghamgymeriadau
- Rwy'n barod i **chwarae fy rhan yn llawn yn fy mywyd a'm gwaith**





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y 4 DIBEN

Unigolion iach a hyderus

- Gallaf ddatblygu mewn hyder a dyfalbarhad
- Rwy'n deall sut i drin eraill a'u teimladau
- Rwy'n deall sut i gadw'n iach wrth fwyta deiet cytbwys a chymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd
- Rwy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol
- Gallaf ddarganfod gwybodaeth er mwyn cadw fy hun yn ddiogel
- Gallaf berfformio yn hyderus
- Gallaf oresgyn heriau
- Rwy'n barod i **fyw bywyd gan wireddu fy nyheadau fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.**

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus

- Gallaf ddefnyddio gwybodaeth er mwyn fy helpu i ddod i farn
- Rwy'n deall bod gennyf hawliau a chyfrifoldebau
- Rwy'n deall y gall yr hyn rydw i'n ei wneud gael effaith ar eraill
- Gallaf ddangos fod gennyf wybodaeth am y byd o'm cwrmpas yn y presennol a'r gorffennol
- Gallaf ddangos parch tuag at bobl y byd o nghwmpas
- Rwy'n deall pa mor bwysig yw edrych ar ôl ein planed
- Rwy'n barod i fod yn **ddinesydd i Gymru a'r byd.**



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y 12 EGWYDDOR

canolbwyntio'n gyson ☐	yn rhoi her i'r dysgwyr ☐	defnyddio cymysgedd o ddulliau ☐	defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol ☐
gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb ☐	creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu ☐	dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu ☐	ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad ☐
cryfhau'n gyson cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, a chyfluoedd yn cael eu darparu i'w hymarfer ☐	cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain ☐	hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol ☐	hybu cydweithio ☐





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y 12 EGWYDDOR

Gwraidd y cwricwlwm yw addysgeg. Wrth i ni gynllunio ar gyfer y cwricwlwm, rhown ystyriaeth i'r dulliau addysgegol mwyaf effeithiol ar gyfer cefnogi'r dysgwyr i gefnogi'r pedwar diben.



Rydym fel ysgol yn dilyn egwyddorion Shirley Clarke ar gyfer asesu ar gyfer dysgu, sy'n ysgogi myfyrdod ar ei gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Darparwn gyfleoedd i ymarfer ac atgyfnerthu sgiliau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a dysgu digidol.



Drwy addysgeg gadarn yn Ysgol y Graig, byddwn yn datblygu ymagwedd bositif at ddysgu, sgiliau metawybyddol cadarn, sgiliau datrys problemau a datblygu'r sgiliau cyfathrebu mewn sawl dull. Yn yr holl weithgareddau a ddarperir, rhown ystyriaeth i anghenion ein holl ddysgwyr. Bydd cyfleoedd i ddysgu dan do yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored.





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y CWRICWLWM

PAM?

Datblygu ein dysgwyr i fod yn

- Canolbwyntio
- Ymdrechu
- Gwella
- Cyd-weithio
- Meddwl
- Dychmygus
- Dyfalbarhau

fydd yn caniatáu iddynt i fod yn hapus, iach ac yn profi llwyddiant mewn bywyd.

BETH?

Paratoi gweithgareddau yn seiliedig ar Y 6 Maes Dysgu, gan gyfuno'r sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, Rhif a Digidol).



SUT?



Gweithgareddau sy'n rhoi her i'n dysgwyr sy'n sicrhau ymdrech barhaus i gwrdd â disgwyliadau uchel ond o fewn eu cyrraedd.

Hybu gwahanol sgiliau ar lawr y dosbarth gan gynnwys datrys problemau, bod yn greadigol, a'u datblygu i fod yn ddysgwyr sy'n meddwl mewn modd beirniadol.

Dilyn egwyddorion addysgeg Shirley Clarke.



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y CWRICWLWM




Y Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

- 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig
- yn sicrhau lefel o gyswrted wrth gyllunio curriculum ar draws lleoliadau ac ysgolion

Mae'n rhaid i guriculwm pob ysgol a phob lleoliad a ariennir nas cynhelir gynnwys yr holl elfennau a nodir yng nghod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Mae'n rhaid i guriculwm ysgol gumpasu'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig o 3 i 16, gan ymgysylltu a'u cysyniadau allweddol mewn modd datblygiadol briodol.






Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y CWRICWLWM




Beth yw Gofynion Ysgolion?



Egwyddorion Cynnydd

- Ehangster'n dyfude gwybodaeth cnyddol
 - Dyfihwyl'n ddealltwrfaeth o'r gyniadau a'r dyfodolgyddiaeth y'u mesydd
 - Mireinio'n seilffisegolddurwydd cnyddol wrth ddeudhwylio'n chynhyrwyse gylluan
 - Creu cnyddiadau'n throsoglywde dygyn i gyd-ddestuau newydd
 - Cnyddia effeithiolrwydd





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y CWRICWLWM

Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

Y Celfyddydau Mynegiannol	Iechyd a Lles	Dyniaethau	Mathemateg a Rhifedd	Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu	Gwyddoniaeth a Thechnoleg
<i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i> Celf, Cerddoriaeth, Dawns, Drama, Ffilm a Chyfrngau Digidol	<i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i> Iechyd a datblygiad y corff Iechyd meddwl Lles emosiynol a chymdeithasol	<i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i> Daearyddiaeth, Hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Hefyd elfennau o: Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Cymdeithasol, Economeg, Athroniaeth	<i>Yn cynnwys 5 hyfedr rhyngddibynol:</i> 1. Dealltwriaeth gysyniadol 2. Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau 3. Rhuglder 4. Rhesydd rhesymegol 5. Cymhwysedd strategol	<i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i> Cymraeg, Saesneg, Ieithoedd Rhyngwladol, Llenyddiaeth	<i>Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:</i> Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Cyfrifiadurol, Dylunio a Thechnoleg

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Byddwn yn cynllunio ar gyfer datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd isod oddi fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad gan wneud defnydd o'r fframweithiau diwygiedig cenedlaethol ar eu cyfer

Llythrennedd	Rhifedd	Cymhwysedd Digidol
--------------	---------	--------------------

Themâu Trawsbynciol

Byddwn yn cynnwys ac yn ymestyn y themâu isod ar draws y cwricwlwm


Addysg cydberthynas a rhywioldeb	Addysg Hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn	Amrywiaeth	Gyrfaedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith	Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
----------------------------------	---	------------	---	--



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - DATGANIADAU O'R HYN SY'N BWYSIG

DATGANIADAU O'R HYN SY'N BWYSIG					
Y Celfyddydau Mynegiannol	Iechyd a Lles	Dyniaethau	Mathemateg a Rhifedd	Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu	Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion	Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.	Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.	Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.	Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.	Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfia, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymy	Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.	Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol. Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol	Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu	Mae meddylfryd dylunio a pheirianneq yn cynniq ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas. Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi
	Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapiu pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.	Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredau pobl.	Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.	Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.	Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
	Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles	Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol			Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol
					Mae cyfrifiaduraeth yn sail i'n byd digidol





EIN THEMÂU A'N DULLIAU O GYNLLUNIO





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - CYNLLUNIO



THEMA

Mae'r Meithrin hyd at Flwyddyn 1 yn cynllunio themâu yn dymhorol.

Mae Blwyddyn 2 hyd at Flwyddyn 6 yn cynllunio themâu fesul tymor a hanner.



Bydd yr holl ddosbarthiadau yn cynllunio îs-themâu o fewn y 'brif thema'

LLAIS Y DYSGWR

Rydym yn rhoi llais y dysgwr yn ganolog yn ein cynllunio. Bydd cyfle iddynt rannu am yr hyn y maent yn ei wybod yn barod, i lunio cwestiynau er mwyn dysgu ymhellach. Rydym hefyd yn estyn allan ac yn rhoi cyfle i'n rhieni i gyfrannu at gynnwys ein thema.



Defnyddiwn amryw ddulliau i gofnodi a choladu'r syniadau.

CYNLLUNIO

Cynllunir ein gweithgareddau yn thematig ar sail y 6 Maes Dysgu.

Sicrhewn fod cyfle i'r dysgwyr ymarfer y 3 sgil trawsgwricwlaidd yn ystod y gweithgareddau.



ASESU

Rhoddir cyfle i'r dysgwyr i asesu gwaith eu hunain ar sail y Meini Prawf Llwyddiant a osodwyd ar gychwyn tasg.



Ceir cyfleoedd i'n dysgwyr i asesu gwaith eu cyfoedion.



Cynhelir asesiadau mewnol yn Medi ac yna yn Ebrill mewn Darllen a Rhif.





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - THEMÂU

Dosbarthiadau Meithrin a Derbyn

FI FY HUN / COCH

Y GAEAF /
YR ARTIG

GRYFFALO /
Y GOEDWIG

SYPREIS
HANDA

FI FY HUN /
HUD A
LLEDRITH

ARCHARWYR /
POBL SY'N
HELPU

Dosbarthiadau Blwyddyn 1 a 2

Y FFERM

DEINASORIAID

Y MÔR

ARCHWILWYR
Y
GYMUNED


Y GOFOD






Y GRAIG SY'N SYLFAEN - THEMÂU

Dosbarthiadau Blwyddyn 3 a 4



Dosbarthiadau Blwyddyn 5 a 6






Y GRAIG SY'N SYLFAEN - LLAIS EIN DYSGWYR


Gweler yma ein gwahanol ddulliau ar gyfer sicrhau fod llais ein dysgwyr yn rhan greiddiol o'r cynllunio.



padlet



Google Classroom



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - CYNLLUNIAU GWAITH

MAPIO IAITH



MAPIO RHIFEDD:-
RHIF, MESUR, DATA, RHESYMU



THEMA:
PELL AC AGOS



Sgil	Sgil Rhifedd	Disgrifiadau dysgu (Camau Cynnydd)	MDaPh	Gweithgaredd
- darllen testunau gwybodaeth yn annibynnol a chan ganolbwyntio dod o hyn i wybodaeth - deall syniadau / gwybodaeth - cynnwys manylion, gwybodaeth yn eu gwaith	- trosglwyddo sgiliau mathemategol i gyd destun bob dydd - defnyddio ffeithiau rhif - cyfrif yn y pen		Celfyddydau Mynegiannol / Cerdd	- dysgu rhythmau Affricanaidd - cyfiri gwerth y curiadau - Perfformio rhythmau
	- casglu a chofnodi data - echdynnu, cyflwyno a dadansoddi data	Rwy'n dechrau cofnodi a chyflwyno data mewn amrywiof flyrdd, gan gynnwys defnyddio siartiau rhifo, tablau amlder, a graffiau bloc lle y darperir echelinau a graddfeydd priodol. CC1: Rwy'n dechrau cyflwyno a dehongli data, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. CC2: Rwy'n dechrau dehongli a dadansoddi graffiau, siartiau a data syml.	Dyniaethau / Daearyddiaeth	- casglu glawiad am fis. Cofnodi a chymharu glawiad dyddiol gyda coedwig law benodol - llunio tabl a rhicbren - echdynnu ac egluro gwybodaeth
- darllen testunau gwybodaeth yn annibynnol a chan ganolbwyntio dod o hyn i wybodaeth - deall syniadau / gwybodaeth - cynnwys manylion, gwybodaeth yn eu gwaith	- trosglwyddo sgiliau mathemategol i gyd destun bob dydd - casglu a chofnodi data - echdynnu, cyflwyno a dadansoddi data	Rwy'n dechrau cofnodi a chyflwyno data mewn amrywiof flyrdd, gan gynnwys defnyddio siartiau rhifo, tablau amlder, a graffiau bloc lle y darperir echelinau a graddfeydd priodol. CC1: Rwy'n dechrau cyflwyno a dehongli data, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. CC2: Rwy'n dechrau dehongli a dadansoddi graffiau, siartiau a data syml.	Dyniaethau / Daearyddiaeth	- edrych ar ffwrthau sydd ar werth yn ASDA - cofnodi enwau'r ffwrthau - cyfrifo pellter taith y ffwrth o'i wlad dyfiant i gyrraedd Llangefni - defnyddio J2E i greu graff - echdynnu, dadansoddi a chyflwyno'r data
- trefnu gwaith yn ôl ffurf a math o ysgrifennu - defnyddio iaith briodol - defnyddio geirfa				
- trefnu gwaith yn ôl ffurf a math o ysgrifennu - defnyddio iaith briodol - defnyddio geirfa	- rosoglwyddo sgiliau mathemategol i gyd destun bob dydd - casglu a chofnodi data - nodi darlenniadau thermomedrau	CC1: Rwy'n gallu ymchwilio, casglu a chofnodi data sydd yn fy amgylchedd. CC2: Rwy'n gallu casglu a threfnu data er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau mewn sefyllfaoedd perthnasol.	Dyniaethau / Daearyddiaeth	- cymharu tymheredd Coedwig Law a thymheredd Llangefni - Cyfrifo gwahaniaeth rhwng y tymheredd
	- casglu a chofnodi data - cyflwyno a dadansoddi data (dewis doeth) - rhestr, tabl, diagram venn		Dyniaethau / Hanes	Cwestiwn: Pa flyrdd sydd gennym o gyfathrebu? (cymharu dulliau cyfathrebu ddoe (dros 100 mlynedd) a heddiw)





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - ASESU



ASESU PARHAUS

Shirley Clarke
Pinc Perffaith,
Piws perffeithio / cywiro,
Melyn Meddwl.
Coch i asesu cyfoedion

Ffrindiau Sgwrsio

Cyfnodau stop (pit stops)
i wirio dealltwriaeth y
dysgwyr yn y dosbarth

Ymyrraethau gyda
dysgwyr ADYach

ASESU WYTHNOSOL

Dydd Gwener gwirio

Incerts - Taith 360

Cofnod a chynnydd
ymyrraeth dysgwyr ADYach

ASESU MEWNOL

Asesiadau darllen yn
defnyddio Prawf Safonol
Abertawe, Glannau Menai
a NARA - Saesneg.

Asesiadau Rhif yn
defnyddio profion NARA

Incerts - Taith 360

BLYNYDDOL

Asesiad ar Fynediad ar
gyfer plant Meithrin

Adroddiad Cynnydd i
rieni



Mae gan bob un o'r cyhyrau eu symbol, ac fe gyfeirir atynt yn ystod gwersi ac wrth i'r dysgwyr hunan asesu eu tasgau.



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - MEDDYLFRYD O DWF



Mae'r ysgol wedi wedi gweithio ar sefydlu ethos o feddylfryd tuag at feddwl gwydd. Mae pob dosbarth wedi gosod wal Meddylfryd gyda'r cyswllt gyda'r modd i gynnal meddwl gwydd drwy ddefnyddio'r cyhyrau dysgu.





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y CYHYRAU DYSGU

Cyhyrau dysgu yn weledol yn y dosbarth ac yn wybyddus i'r dysgwyr wrth iddynt gwblhau tasg.





Y GRAIG SY'N SYLFAEN - Y CYHYRAU DYSGU

Gweler yma enghreifftiau o ddulliau'r ysgol o ddysgwyr yn hunan asesu gan fyfyrrio ar y cyhyrau a ddefnyddiwyd wrth gwblhau'r dasg.



Rydyn ni wedi bod yn edrych ar y deg gorchymyn

Meini Prawf Llwyddiant:

Ysgrifennwch 10 rheol ydych chi'n credu byddai'n gwneud y Byd yn le gwell ☒

Gweithiwch yn annibynnol ☒

Defnyddiwch y banc geiriau am gymorth i sillafu ☒

Pa bŵer dysgu ydych chi am ei ddefnyddio ar gyfer y dasg hon?

☺ ? 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️

Hunan Asesu

Dyma sut rwy'n teimlo am fy ngwaith.

☺️ ☹️ 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️

Pa bwerau dysgu ydych chi wedi eu defnyddio heddiw?

☺️ ? 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️

 **Llythyr Arnie** 

Fi yn asesu fy llythyr

Ydych chi wedi disgrifio pam fod hi'n braf yn tŷ Nain a Daid? ☺️ ☹️ 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️	Ydych chi wedi disgrifio yr hyn welsoch chi yn y dref? ☺️ ☹️ 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️	Wnaethoch chi gofio rhoi neges glên i glori'r llythyr? ☺️ ☹️ 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️
--	---	---

Fy ffrind yn asesu fy llythyr


Ydy eich ffrind wedi disgrifio yr hyn mae wedi bod yn ei wneud yn tŷ ei Nain a Daid? ☺️ ☹️ 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️	Ydych chi wedi darllen disgrifiadau o'r dref ers talwm? ☺️ ☹️ 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️	Oes yna neges gan Mam? Oes yna neges glên gan Archie? ☺️ ☹️ 🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️
---	--	--

Pa gyhyrau dysgu ydych chi wedi eu defnyddio heddiw?

🗣️ 🧠 🧑🏫 🔑 ⬆️ 👁️ ? ☺️



Y GRAIG SY'N SYLFAEN - GWEFAN YR YSGOL



The screenshot shows the website for Ysgol y Graig, Llangefni. The header features the school's logo and navigation links for 'CALENDUR', 'CYSYLLTU', 'ADRAN DDIOGEL', and 'ENGLISH'. Below the header, there are links for 'Cartref', 'Deddfhysbys', 'Gwybodaeth', 'Luniau', 'Newyddion', and 'Cysylltu'. The main content area is titled 'Cwricwlwm i Gymru' and features a video player showing a document titled 'Y cwricwlwm newydd i Gymru'. To the right of the video player is a list of links under the heading 'Yn yr adran yma:'. At the bottom of the page, there is a caption for the video: 'Y cwricwlwm newydd i Gymru' and 'Canllaw hawdd ei ddeall i bobl ifanc'.

Cwricwlwm i Gymru

Yn yr adran yma:

- [Gwybodaeth](#)
- [Staff](#)
- [Llythyrau](#)
 - [Archif Llythyrau](#)
- [Llawlyfr Ysgol](#)
- [Adroddiad Estyn Diweddara](#)
- [Blaenoriaethau Cynllun Datblygu Diweddara](#)
- [Gwisg Ysgol](#)
- [Cerdoriaeth](#)
- [Gweithgareddau ar ol Ysgol](#)
- [Cyngor Ysgol](#)
 - [Ysgol Iach](#)
 - [Ysgol Eco](#)
 - [Siarter Iaith](#)
- [Ffrindiau Ysgol y Graig](#)
- [Calendr](#)
- [Adran Ddiogel](#)
- [Cwricwlwm i Gymru](#)

Y cwricwlwm newydd i Gymru
Canllaw hawdd ei ddeall i bobl ifanc

Mae rhagor o wybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru ar gael ar wefan yr ysgol.

